

<b>BRECH AC ANHWYLDER AR Y CROEN</b>	<b>Cyfnod a gymeradwyir i gadw draw o'r ysgol (unwaith y bo'r plentyn yn iach)</b>	<b>SYLWADAU</b>
Tarwden y Traed (Athlete's Foot)	Dim.	
Brech yr leir	Pum niwrnod o ddechrau'r frech.	Nid yw'n angenrheidiol aros nes y bydd yr ysmotiau wedi gwella neu fagu crachen. (Pwysig: Gweler staff benywaidd mewn ysgolion, gweler Plant Hawdd eu Clwyfo).
Briwiau Annwyd (firws Herpes simplex)	Dim.	Mae llawer o blant ac oedolion iach yn rhyddhau'r firws hwn ar ryw adeg heb gael 'briw'.
Rwbela	Pum niwrnod o ddechrau'r frech.	Mae'r plentyn ar ei fwyaf heintus cyn i'r diagnosis gael ei wneud a dylai'r rhan fwyaf o blant fod yn imiwn yn dilyn imiwrneiddiad. Felly bydd gwahardd ar ôl i'r frech ymddangos yn rhwystro ychydig iawn o achosion. (Pwysig: gweler Staff Benywaidd mewn Ysgolion).
Clwyf y llaw, y troed a'r genau	Dim.	Fel arfer, clwyf ysgafn heb fod angen amser o'r ysgol.
Impetigo	Nes bod yr anafiadau wedi magu crachen neu wedi mendio.	Gall triniaeth wrthfotig drwy'r geg gyflymu gwelliant. Os gellir dibynnu cadw'r briwiau wedi eu gorchuddio gellid byrhau gwaharddiad.
Brech Goch	Pum niwrnod o ddechrau'r frech.	Mae'r frech goch yn awr yn brin yn y DU (Gweler Plant Hawdd eu Clwyfo).
Molluscum Contagiosum (Heintus)	Dim.	Cyflwr ysgafn.
Y Darwden (Tinea)	Dim.	Mae triniaeth addas gan y Meddyg Teulu yn bwysig. Mae tarwden croen y pen angen triniaeth wrthff yngol drwy'r geg.
Brech Rosynnaidd	Dim.	Salwch ysgafn a ddeler fel arfer oddi wrth bobl iach.
Sgabies (Y Crafu)	Nes y caiff ei drin.	Cafwyd achosion achlysurol mewn ysgolion a meithrinfeydd. Gall y plentyn ddychwelyd cyn gynted ag y bydd y clwy' wedi ei drin yn iawn. Dylai hyn gynnwys pawb yn y cartref.
Y dwymyn goch	Pum niwrnod o ddechrau cymryd gwrthfotigau.	Argymhellir triniaeth ar gyfer y plentyn a effeithir.
Parvofirws	Dim.	Pwysig: Gweler Staff Benywaidd mewn Ysgolion. Gall gwahardd fod yn aneffeithiol gan fod bron bob trosglwyddiad yn digwydd cyn i'r plentyn fynd yn wael.
Defaid a ferwcau	Dim.	Gall plant a effeithir fynd i nofio, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol eraill, megis gymnasteg, ond dylid gorchuddio'r ferwcau.
<b>DOLUR RHYDD A THAFLU I FYNY</b>	<b>Cyfnod a gymeradwyir i gadw draw o'r ysgol (unwaith y bo'r plentyn yn iach)</b>	<b>SYLWADAU</b>
Dolur rhydd a thaflu i fyny (gyda neu heb ddiagnosis penodol)	Nes bod y taflu i fyny a'r dolur rhydd wedi setlo (dim un o'r rhain am y 24 awr blaenorol).	Fel arfer, ni fydd diagnosis penodol ac ar gyfer y rhan fwyaf o gyflyrau nid oes triniaeth benodol. Gall cyfnod hwy o waharddiad fod yn addas i blant dan dair oed a phlant hyn sy'n methu â chynnal safon hylendid da.
E. Coli Syndrom Hemolytig Wremig	Yn dibynnu ar y math o E. Coli. Ceisiwch ragor o gyngor y CCDC.	
Giardiasis	Nes bod y dolur rhydd wedi setlo (dim un o'r rhain am y 24 awr blaenorol).	Nid oes triniaeth wrthfotig benodol.
Salmonela	Nes bod y taflu i fyny a'r dolur rhydd wedi setlo (dim un o'r rhain am y 24 awr blaenorol).	Os yw'r plentyn o dan bump oed, neu bod ganddo anawsterau gyda hylendid personol, ceisiwch gyngor y CCDC.
Shigela (Dysenteri basilaidd)	Nes bod y dolur rhydd wedi setlo (dim	Os yw'r plentyn o dan bump oed, neu bod

	un o'r rhain am y 24 awr blaenorol).	ganddo anawsterau gyda hylendid personol, ceisiwch gyngor y CCDC.
--	--------------------------------------	---

<b>ANADLLOL</b>	<b>Cyfnod a gymeradwyir i gadw draw o'r ysgol (unwaith y bo'r plentyn yn iach)</b>	<b>SYLWADAU</b>
Y ffliw	Dim.	Mae'r ffliw ar ei fwyaf heintus ychydig cyn ac ar doriad y symptomau.
Y Diciâu (Twbercwlosis)	Bydd y CCDC yn cynghori ar weithredu.	Yn gyffredinol, rhaid cael cyswllt agos am hir iddo ymledu. Ddim yn ymledu o blant fel arfer.
Y Pâs (Pertussis)	Pum niwrnod o ddechrau triniaeth wrthfiotig.	Argymhellir triniaeth (gydag erythromysin fel arfer), er y gall peswch anheintus barhau am nifer o wythnosau.
<b>ERAILL</b>	<b>Cyfnod a gymeradwyir i gadw draw o'r ysgol (unwaith bo'r plentyn yn iach)</b>	<b>SYLWADAU</b>
Llid yr amrannau (Conjunctivitis)	Dim.	
Twymyn y chwarennau (Mononiwcleosis heintus)	Dim.	
Llau pen (nedd)	Dim.	
Hepatitis A	Gweler sylwadau.	
Llid yr ymennydd meningococaid/septisemia	Bydd y CCDC yn rhoi cyngor penodol ar unrhyw weithredu angenrheidiol.	
Llid yr ymennydd heb fod yn deillio o haint meningococaid	Dim.	
Clwy'r pennau	Pum niwrnod ers i'r chwarennau ddechrau chwyddo.	
Llyngyr edau	Dim.	
Tonsilitis	Dim.	
HIV/AIDS	Nid yw HIV yn heintus drwy gyswllt ar hap. Ni fu unrhyw gofnodion o achosion o ymlediad o fewn ysgol. (Gweler GLANHAU HYLIF CORFF A GOLLWYD.)	
HEPATITIS B ac C	Er yn fwy heintus na HIV, anaml y bu i hepatitis B ac C ymledu o fewn sefyllfa ysgol. Bydd rhagofalon cyffredinol yn lleihau unrhyw berygl o ledaenu hepatitis B ac C. (Gweler GLANHAU HYLIF CORFF A GOLLWYD.)	

(Adran Iechyd, 1999)